

Gwaith Comisiwn Iechyd a Llesiant Llenyddiaeth Cymru

Gwybodaeth a thempled ynglŷn â llunio cyllideb

Fel rhan o'ch cais ar gyfer **Gwaith Comisiwn Iechyd a Llesiant Llenyddiaeth Cymru**, mae angen i chi gyflwyno braslun o gyllideb ar gyfer y prosiect er mwyn arddangos trawstoriad y swm dan sylw.

Darllenwch y nodiadau isod cyn mynd ati i lenwi'r templed gwag sydd ar y dudalen nesaf, os gwelwch yn dda.

Canllawiau ac Amodau

- Ceisiwch gadw'r gyllideb mor syml â phosib
- Ystyriwch yr **holl** gostau sydd ynghlwm â'ch gweithgaredd, gan gynnwys: deunyddiau ar gyfer y gweithdai (e.e. pensiliau/papur), deunyddiau marchnata, unrhyw gymorth pellach sydd ei angen (hurio lleoliad, teithio neu lety os yn cwrdd wyneb yn wyneb).
- Mae'n bosib y bydd angen i chi ganfod dyfynbrisiau cyn cyflwyno'ch cyllideb (e.e. ar gyfer hurio lleoliad) neu gynnwys amcangyfrif mewn rhai achosion.
- Dylech ystyried ffioedd yr awdur a'r artist (os yn berthnasol), gan gynnwys eich ffi eich hun. Dylech gynnwys nifer yr oriau dan sylw yn y golofn 'disgrifiad' (h.y. cyfradd hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn).
- Pe bai angen ymhelaethu ar unrhyw adran, gallwch ddefnyddio'r adran 'Nodiadau I gyd-fynd â'r gyllideb' ar gyfer y diben hwnnw.
- Ceisiwch ddilyn fformat y golofn 'Disgrifiad' fel sydd yn y gyllideb enghreifftiol (e.e. pryniant deunyddiau £35).
- Os ydych chi'n ymgeisio mewn partneriaeth ag elusen neu sefydliad, nodwch eu cyfraniad 'mewn da' yma, e.e. lleoliad ar gyfer y gweithdy, cymorth marchnata ayyb.
- Rhowch y gwir gyfanswm yn y blwch priodol. Dyma'r cyfanswm nawdd y byddwch chi'n ymgeisio amdano. Os fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn grant swm penodol. Ni fydd modd ystyried rhagor o gyllid nag unrhyw dreuliau ychwanegol.
- **Nodwch:** Mae'n bosib y byddwn yn cynnig nawdd is na'r swm gwreiddiol mewn rhai achosion.

Am ragor o wybodaeth neu gefnogaeth cyn ymgeisio,
cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru: post@llynyddiaethcymru.org

Cyllideb Enghreifftiol

Dyma enghraifft o gyllideb ar gyfer cais i redeg prosiect

Eitem	Disgrifiad	Cyfanswm
Ffi awdur – rhedeg gweithdy a gwaith paratoi	4 x cyfradd hanner diwrnod @ £150	£600
Ffi artist – rhedeg gweithdy a gwaith paratoi	4 x cyfradd hanner diwrnod @ £150	£600
Deunyddiau gweithdy (pinnau ffelt, pensiliau, papur ayyb...)	1 x pryniant deunyddiau @ £35	£35
Deunyddiau Marchnata	50 x argraffu posteri @ 40p	£20
Costau argraffu a dylunio	50 x llyfryn	£350
Teithio	4 x £10	£40
Adborth Monitro a Gwerthuso/Astudiaeth Achos/Blog	1 x hanner diwrnod @ £150	£150

Gwir gyfanswm

£1795

Templed gwag

Ychwanegwch ragor o resi fel sydd angen

Eitem	Disgrifiad	Cyfanswm
		£
		£
		£
		£
		£
		£

Gwir gyfanswm

Nodiadau i gyd-fynd â'r gyllideb: